# Peirianneg genetig

MEGAN Araf deg Megan. Fel ninja.

W! Da iawn.

Ti'n ffrind a hanner Loki. Faint gymerodd o i ti feddwl am y tric yna? Ti angen coler sy'n goleuo yn y tywyllwch.

ALFRED Chwilio am gath-sy'n-goleuo-yn-y-tywyllwch.

MEGAN Ha! Beth?

ALFRED Gan ddefnyddio ensymau, gall gwyddonwyr dynnu genynnau penodol o DNA organeb a'u rhoi mewn gwagle DNA organeb arall. Mae hyn yn golygu dy fod ti'n gallu dewis rhan ddefnyddiol o DNA organeb - fel y darn sy'n gwneud i sglefren fôr oleuo yn y twyllwch a'i roi mewn i DNA organeb arall fel cath.

MEGAN Mae'n bosib gwneud hynny?

ALFRED Ydy.

Mae'n bosib defnyddio'r dechnoleg yma mewn sawl ffordd, o ddefnyddio bacteria I wneud inswlin ar gyfer pobl sy'n dioddef o glefyd siwgr math 1, i gynhyrchu cnydau sydd â mwy o fitaminau ac sy'n tyfu'n fwy effeithiol. Mae peirianneg genetig yn gallu gwella, ond hefyd newid pethau nad ydym yn ymwybodol ohonynt eto. Mae'n gallu bod yn ddrud ac effeithio ar gydbwysedd natur, sy'n codi cwestiynau moesegol i rai.

MEGAN Ie, ond cathod-sy'n-goleuo-yn-y-tywyllwch? Anhygoel!

ALFRED Drwy osod DNA i gell embryo cath, alle Loki fod yn lamp sy'n gallu cerdded. Defnyddiol iawn.


© Hawlfraint BBC

MEGAN Byddai hynny’n gwneud sleifio yn ôl i’r tŷ tipyn haws.

TAD Megan!
MEGAN


© Hawlfraint BBC